

Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Adran Radiotherapi – Canolfan
Ganser Gogledd Cymru / Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 16 a 17 Mawrth
2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mehefin
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	25
4.	Beth nesaf?	30
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio... 32	
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o bell lle rhoddwyd rhybudd o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o Adran Radiotherapi Canolfan Ganser Gogledd Cymru, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 16 a 17 Mawrth 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwchswyddog Clinigol o grŵp Amlygiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar ôl bwrw golwg dros y wybodaeth a roddwyd a chynnal trafodaethau â'r staff, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod cysylltiad cleifion ag ymbelydredd ïoneiddio yn cael ei reoli'n ddiogel yn yr adran, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Roedd holl weithdrefnau a phrotocolau'r cyflogwr a welwyd yn fanwl iawn ac yn dangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017. Hefyd, dangosodd y staff ymwybyddiaeth dda o'r gweithdrefnau sydd ar waith, yn ogystal â dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd.

Roedd tystiolaeth o weithlu profiadol ac ymrwymedig, gydag ethos gwaith tîm da. Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddir iddynt.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion am eu profiadau o fynychu'r adran. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn yr adran.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dangosodd y dystiolaeth a roddwyd fod y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i atal heintiau a chynnal gwaith dihalogi effeithiol yn y gwasanaeth. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19.
- Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau addas ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran
- Roedd trefniadau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r adran, ac roedd prosesau clir wedi'u disgrifio mewn perthynas â delio â phryderon anffurfiol a ffurfiol am y gwasanaeth ac ymateb iddynt

- Rhoddwyd tystiolaeth dda i ddangos sut roedd y gwasanaeth yn cofnodi digwyddiadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn yr adran, yn eu dadansoddi, yn cynnal asesiadau risg mewn perthynas â nhw ac yn cyflwyno mesurau lliniaru ar eu cyfer.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff y ddogfennaeth berthnasol ei diweddarau er mwyn nodi'n glir pa aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am ddiffinio organau sydd mewn perygl fel rhan o'r broses gynllunio cyn triniaeth
- Sicrhau y caiff sesiynau goruchwyllo ac arfarnu eu cynnal fel mater o drefn, er mwyn nodi a monitro anghenion hyfforddi a datblygu
- Sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol perthnasol fel rhan o'u rolau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 ac mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty aciwt i boblogaeth o tua 690,000 o bobl ledled chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae gan y bwrdd iechyd dri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau ac unedau iechyd meddwl.

Agorwyd Canolfan Ganser Gogledd Cymru, sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, ym mis Mehefin 2000, a dyma'r unig ddarparwr triniaeth radiotherapi ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru. Mae'r Adran Radiotherapi yn cynnwys adrannau cynllunio a thriniaeth, yn ogystal ag ystafell fowldio lle y caiff dyfeisiau siapio pelydr arbennig eu creu ar gyfer cleifion unigol y mae angen addasu eu triniaeth ymhellach. Rhoddir triniaeth drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar, gan gynnwys cyflymwr y llinellol¹ ac unedau orthofoltedd².

Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys oncolegwyr ymgynghorol, radiograffwyr a gwyddonwyr clinigol. Mae'r adran hefyd yn cael cyngor a chymorth gan bedwar Arbenigwr Ffiseg Feddygol³ a gaiff eu cyflogi gan y bwrdd iechyd.

¹ Peiriant a ddefnyddir i roi triniaethau ymbelydredd pelydr allanol i gleifion cancer.

² Peiriant a ddefnyddir i roi triniaeth ar wyneb y croen neu'n agos i wyneb y croen, e.e. cancer y croen, yw uned orthofoltedd.

³ Ystyr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yw unigolyn sy'n meddu ar wybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu gynghori ynghylch materion sy'n ymwneud â chymhwyso ffiseg ymbelydredd at gysylltiad meddygol ym maes radiolog ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae ei gymhwysedd yn hyn o beth wedi'i gydnabod gan awdurdod cymwys. O dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n cyflawni cysylltiadau meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

Ansawdd profiad y claf

Fel rhan o'n harolygiad o bell, gwnaethom ystyried rhai o'r trefniadau a oedd ar waith i gyfathrebu â chleifion a chael adborth ganddynt ar y gwasanaethau a ddarperir.

Ar y cyfan, cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau addas ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran.

Roedd trefniadau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r adran, ac roedd prosesau clir wedi'u disgrifio mewn perthynas â delio â phryderon anffurfiol a ffurfiol am y gwasanaeth ac ymateb iddynt.

Fel rhan o'n dull arolygu o bell o dan y Rheoliadau, gwnaethom ddatblygu arolwg cleifion ar-lein er mwyn galluogi cleifion i fynegi eu barn a'u profiadau o ran y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolwg hwn drwy boster a arddangoswyd yn yr adran yn ystod y cyfnod cyn ein harolygiad, ac ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol AGIC. Cwblhawyd cyfanswm o 22 o holiaduron.

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion roi gradd am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol a dywedodd bron pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Staff yr adran radiotherapi yw'r gorau yn y Ganolfan Ganser gyfan ac rwyf wedi defnyddio pob un o'r adrannau."

"Radiograffwyr gwych, parod iawn i helpu gan ddangos urddas a pharch"

"Mae pawb rwyf wedi cwrdd â nhw, ers fy niwrnod cyntaf yma, wedi bod mor garedig a pharod i helpu"

"Roedd y gwasanaeth yn dda iawn a gwnaeth staff ardderchog a gofalgar fy helpu i ddod drwy'r profiad."

Gofal ag urddas

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn yr adran. Roedd y mwyafrif o'r cleifion o'r farn y gallent gynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster yn ystod eu hapwyntiadau.

Roedd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad, a chadarnhaodd pob un o'r cleifion fod y staff wedi gofyn iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau eu prawf neu eu triniaeth. Hefyd, roedd y mwyafrif o'r cleifion yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu prawf neu eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â darparu gwybodaeth am driniaeth a chydsyniad cleifion i driniaeth radiotherapi. Roedd y weithdrefn hon yn nodi ei bod yn rhaid i drafodaethau rhwng y staff a'r cleifion gael eu cynnal cyn unrhyw achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd, er mwyn trafod materion yn cynnwys manteision a risgiau cysylltiad o fath. Roedd y trafodaethau hefyd yn cynnwys triniaethau amgen, gan gynnwys dim triniaeth. Cadarnhaodd y staff fod y trafodaethau hyn yn digwydd yn rheolaidd yn yr adran a bod tystiolaeth o'r trafodaethau'n cael ei chofnodi ar y ffurflen gydsynio briodol. Roedd modd i'r cleifion gael copi o'r ffurflen hon. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr adran wedi mabwysiadu ffurflen gydsynio safle-benodol ar gyfer triniaethau canser y fron a chanser y prostad er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth gyson ei rhannu â'r grwpiau hyn o gleifion.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall manteision a risgiau eu hopsiynau triniaeth. Hefyd, cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn perthynas â phenderfyniadau am eu triniaeth.

Cadarnhaodd y staff fod taflenni gwybodaeth ar gael i'r cleifion a chadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn ystod eu triniaeth ac ar ôl hynny, yn ogystal â manylion am bwy i'w holi am gyngor petaent yn profi unrhyw sgil-effeithiau ar ôl dod i gysylltiad ag ymbelydredd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym fod dolen sain ar gael mewn ystafell glinig wrth ymyl prif dderbynfa'r adran, er mwyn helpu cleifion sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â'r staff. Hefyd, cadarnhaodd y staff fod gwybodaeth yn cael ei hysgrifennu ar gyfer cleifion sydd â nam ar y clyw, pan fo angen, er mwyn eu galluogi i gyfathrebu'n ddigonol. Rhoddwyd gwybod i ni y byddai unrhyw gymhorthion cyfathrebu eraill, megis print mawr neu Braille, yn cael eu caffael a'u darparu ar gais.

Dywedodd y staff wrthym fod dewis iaith y cleifion yn cael ei chofnodi ar y ffurflen apwyntiad ac y gellid trefnu i gyfieithwyr ddod i mewn i'r adran ar gyfer apwyntiad y claf neu ddarparu gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn.

Hefyd, dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran yn siarad Cymraeg. Cadarnhaodd y staff hefyd fod hysbysiadau'n cael eu harddangos yn yr adran i roi gwybod i'r cleifion bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

Gofal Amserol

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod hysbysfyrddau ym mhob un o ardaloedd aros yr adrannau a oedd yn rhoi gwybodaeth am unrhyw oedi a ragwelir cyn apwyntiadau'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw oedi, er mwyn iddynt allu rhoi gwybod i'r cleifion wrth iddynt gyrraedd. Byddai unrhyw gleifion sydd eisoes yn yr ystafell aros pan fyddai problem yn codi a fyddai'n effeithio ar amseroedd eu hapwyntiadau, yn cael eu hysbysu am hynny gan aelod o'r staff. Fodd bynnag, dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd ein holiadur nad oeddent wedi cael gwybod adeg cyrraedd am faint o amser y byddent yn debygol o orfod aros cyn cael eu prawf neu eu triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod fel mater o drefn beth yw'r amseroedd aros disgwylidig yn yr adran.

Gofal Unigol

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i alluogi'r cleifion i roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r adran. Dywedwyd wrthym fod Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion⁴ (PALS) y bwrdd iechyd ar gael i wrando ar unrhyw sylwadau, ymholiadau neu bryderon gan gleifion, ac ymateb iddynt. Dywedwyd wrthym hefyd fod adroddiadau misol yn cael eu cyflwyno i'r adran yn nodi unrhyw adborth a gafwyd gan gleifion a bod crynodebau o'r adborth a gafwyd yn cael eu harddangos yn yr adran.

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'n harolwg staff yn dangos nad oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau sydd ar waith i gasglu adborth gan gleifion. Hefyd, nododd 20 y cant o'r staff a ymatebodd nad oeddent yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion roedd yr adran yn ei gael.

Esboniodd y staff, pan fyddai pryderon yn cael eu codi gan gleifion ar lafar, y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud yn y lle cyntaf, lle y bo'n bosibl, i geisio datrys y materion ar unwaith. Fodd bynnag, pe bai'r claf am wneud cwyn ffurfiol o hyd, byddai'n cael ei gyfeirio at weithdrefn gwyno GIG Cymru, Gweithio i Wella⁵. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod gwybodaeth am weithdrefn Gweithio i Wella, yn ogystal â'r Cyngor Iechyd Cymuned⁶, yn cael ei harddangos yn yr adran.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i roi diweddariadau rheolaidd i'r staff am yr adborth a geir gan gleifion ar eu profiadau o'r gwasanaeth.

⁴ <https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau/tim-profiad-y-claf-a-gofalwyr/tim-profiad-y-claf-a-gofalwyr/cysylltu-ar-gwasanaeth-cyngor-a-chyswllt-i-gleifion-pals/>

⁵ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

⁶ <https://bipbc.gig.cymru/cyngor-iechyd-cymuned/>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd yn unol â Rheoliadau 2017.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau digonol wedi'u rhoi ar waith i atal heintiau ac ymgymryd â gwaith dihalogi yn effeithiol yn yr adran.

Ar ôl bwrw golwg dros y wybodaeth a roddwyd a chynnal trafodaethau â'r staff, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod cysylltiad cleifion ag ymbelydredd ïoneiddio yn cael ei reoli'n ddiogel yn yr adran, yn unol â Rheoliadau 2017.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd y cyflogwr wedi rhoi gweithdrefn ysgrifenedig gynhwysfawr a chyfredol ar waith i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir ag ymbelydredd ïoneiddio yn unol â gofynion Rheoliadau 2017. Roedd y weithdrefn yn nodi ei bod yn ofynnol i'r staff ofyn i'r claf am ei enw, ei ddyddiad geni a'i gyfeiriad er mwyn cadarnhau ei fanylion adnabod a'u cymharu â'r data ffynhonnell sylfaenol. Mae'r dull hwn yn unol â chanllawiau presennol y DU⁷.

⁷ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017

Roedd y manylion yn y weithdrefn hefyd yn amlinellu'r camau gofynnol i'w cymryd er mwyn adnabod gwahanol fathau o gleifion gan gynnwys unigolion nad oes ganddynt alluedd o bosibl, unigolion â nam ar y synhwyrau ac unigolion sy'n siarad iaith wahanol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'n glir y camau yr oeddent yn eu cymryd fel mater o drefn i adnabod cleifion yn gywir cyn archwiliadau yn yr adran.

Unigolion sy'n gallu beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig i'w dilyn mewn perthynas â chadarnhau statws beichiogrwydd unigolion a oedd yn yr ystod oedran i feichiogi, cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, fel rhan o'r cam cynllunio neu drin. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod y staff yn gwneud ymholiadau o'r fath mewn modd safonol a chyson.

Roedd y manylion yn y weithdrefn yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid gofyn iddynt am feichiogrwydd, sef rhwng 12 a 55 oed. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr nad oedd y gwasanaeth yn trin cleifion o dan 16 oed, a oedd wedi'i adlewyrchu yn y ddogfennaeth a welwyd.

Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn yn dibynnu ar ymateb yr unigolyn, ac yn amlinellu'r aelodau o'r staff a oedd yn gyfrifol am y tasgau perthnasol. Hefyd, roedd yn cynnwys canllawiau i'r staff ar holi am feichiogrwydd ar gyfer gwahanol fathau o gleifion y gallant ddod ar eu traws, gan gynnwys cleifion ag anghenion cyfathrebu penodol a chleifion trawsryweddol neu anneuaidd.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â holi am feichiogrwydd, a oedd yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr. Hefyd, dywedwyd wrthym fod posteri wedi'u harddangos yn yr adran yn hysbysu unigolion y dylid rhoi gwybod i'r staff os ydynt yn feichiog neu'n meddwl y gallent fod yn feichiog.

Ar ôl bwrw golwg dros yr adran berthnasol ym Mholisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio'r cyflogwr, gwnaethom sylwi bod rhai cyfeiriadau at derminoleg o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2000, h.y. menywod o oedran beichiogi. Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff yr adran hon yn y polisi ei hadolygu a'i diweddarau i gyfeirio at y derminoleg o Reoliadau 2017, h.y. unigolion sy'n gallu beichiogi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff yr adran ar holi am feichiogrwydd (8.3) yn y Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio ei diweddarau er mwyn adlewyrchu terminoleg o Reoliadau 2017.

Cysylltiadau â delweddu anfeddygol

Nid oedd cysylltiadau â delweddu anfeddygol⁸ yn cael eu cynnal yn yr adran. Roedd hyn wedi'i nodi'n glir yn Llawlyfr Cysylltiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi y cyflogwr.

Canllawiau atgyfeirio

Roedd canllawiau atgyfeirio sefydledig ar waith a chafodd trefniadau digonol eu disgrifio ar gyfer darparu'r rhain i unigolion sydd â hawl i atgyfeirio cleifion at yr adran. Cawsom wybod bod y canllawiau atgyfeirio a'r protocolau clinigol ar gael ar fewnwyd y bwrdd iechyd a bod pawb sydd â hawl i atgyfeirio cleifion hefyd yn cael gwybod am y canllawiau a'r broses ar gyfer atgyfeirio fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Hefyd, roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith yn nodi'r broses atgyfeirio y dylai unigolion ei dilyn. Roedd y weithdrefn yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r atgyfeiriwr ei rhoi er mwyn sicrhau y bydd yr atgyfeiriad yn ddilys. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys y manylion personol perthnasol, hanes clinigol, y math o driniaeth sy'n ofynnol, man y driniaeth a llofnod yr unigolyn sy'n atgyfeirio. Hefyd, roedd y weithdrefn yn nodi, petai gwybodaeth atgyfeirio annigonol yn cael ei chyflwyno, y dylid gofyn i'r atgyfeiriwr roi mwy o wybodaeth cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi unrhyw oedi.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod atgyfeiriadau at yr adran yn cael eu gwneud drwy ffurflen atgyfeirio bapur. Ar ôl iddi ddod i law, caiff y ffurflen ei chofrestru gan staff gweinyddol ac yna bydd radiograffwyr cyn triniaeth yn bwrw golwg drosti er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn, cyn i apwyntiad gael ei drefnu. Cawsom wybod bod blwch post atgyfeiriadau ar-lein wedi cael ei sefydlu o ganlyniad i COVID-19 fel bod modd i atgyfeiriadau hefyd gael eu cyflwyno i'r adran yn

⁸ Mae cysylltiadau â delweddu anfeddygol yn cynnwys cysylltiadau sy'n ymwneud ag asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnfudo a dibenion yswiriant. Gall y rhain gael eu cyflawni hefyd er mwyn nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff

electronig. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym mai'r ffurflen bapur oedd y system atgyfeirio safonol o hyd, ond bod cynlluniau yn yr arfaeth i ddatblygu'r system atgyfeirio electronig a'i rhoi ar waith yn llawn yn y dyfodol.

Roedd trefniadau ar waith i feddyg ymgynghorol o Ganolfan Ganser Gogledd Cymru ddarparu gwasanaethau bracitherapi yng Nghanolfan Ganser Clatterbridge (CCC) yn Lerpwl. Mae gan y meddyg ymgynghorol dan sylw gontract er anrhydedd â CCC ac mae ganddo hawl i weithredu fel atgyfeiriwr, ymarferydd a gweithredwr bracitherapi gynaeoleg yno. Hefyd, mae ganddo drwydded ARSAC yn CCC ar gyfer bracitherapi gynaeoleg. Mae hyn yn sicrhau parhad gofal i gleifion a fydd yn aml yn cael triniaeth pelydr allanol yng Nghanolfan Ganser Gogledd Cymru a bracitherapi yn CCC. Caiff y trefniant hwn ei reoli dan gontract blynyddol rhwng y ddau ddarparwr gofal iechyd.

Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi rolau gwahanol y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio, cyfiawnhau a darparu'r cysylltiadau radiotherapi o dan y Rheoliadau. Roedd y Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r deiliaid dyletswydd penodol yn unol â'r Rheoliadau, sef atgyfeiriwr⁹, ymarferydd¹⁰ a gweithredwr¹¹ (a elwir yn ddeiliaid dyletswyddau).

Roedd y polisi yn cynnwys manylion am y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall unigolyn gael hawl ffurfiol i fod yn ddeiliad dyletswydd. Roedd rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn i ddeiliaid dyletswyddau hefyd wedi'i nodi yn y Llawlyfr Cysylltiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r gofynion i ddeiliaid dyletswyddau.

⁹ O dan y Rheoliadau, mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer cysylltiad meddygol.

¹⁰ O dan y Rheoliadau, mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am gysylltiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau cysylltiadau meddygol.

¹¹ O dan y Rheoliadau, ystyr gweithredwr yw unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gysylltiad meddygol.

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y trefniadau ar gyfer hysbysu'r staff am unrhyw newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn yr adran. Dywedwyd wrthym fod newidiadau'n cael eu trafod ar lafar â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm a bod memos staff misol yn cael eu dosbarthu drwy e-bost, gyda derbynebaw i ddangos eu bod wedi cael eu darllen, yn esbonio unrhyw newidiadau y mae angen i'r staff fod yn ymwybodol ohonynt.

Cyfiawnhau Cysylltiadau Meddygol Unigol

Roedd y cyflogwr wedi rhoi gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi¹² cysylltiadau ar gamau cynllunio, gwirio, trin ac ailgynllunio llwybr y claf. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd a'r trafodaethau â'r staff mewn perthynas â'r trefniadau sydd ar waith yn dangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017.

Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio¹³ cysylltiadau gan gynnwys cysylltiadau ar y camau cynllunio, gwirio a thrin. Nod y trefniadau hyn oedd sicrhau bod y dosau o ymbelydredd a roddir i gleifion o ganlyniad i gysylltiadau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Roedd protocolau cynllunio tomograffeg gyfrifiadurol yn cael eu hoptimeiddio a'u harchwilio ac roedd lefelau cyfeirio dosau lleol yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Roedd prosesau delweddu gwirio yn benodol i'r safle ac wedi'u disgrifio mewn protocolau clinigol. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod triniaethau'n cael eu cynllunio a'u gwirio'n unigol i sicrhau bod y dechneg, y peiriant a'r trefniant pelydrau optimaidd yn cael eu dewis ar gyfer y driniaeth, er mwyn lleihau'r dosau cysylltiad cymaint â phosibl ond gan gyrraedd y targed o ran cwmpas ar yr un pryd.

Fel rhan o'r broses cynllunio triniaeth ar gyfer radiotherapi, rhaid i unrhyw rai o organau perthnasol y cleifion sydd mewn perygl yn ystod y cysylltiad gael eu diffinio. Yn ystod y trafodaethau â'r staff, gwelwyd bod dealltwriaeth glir mai

¹² Cyfiawnhau yw'r broses o bwysu a mesur manteision disgwylidig amlygiad yn erbyn y niwed y gallai'r amlygiad ei achosi i'r unigolyn hwnnw. Awdurdodi yw'r dystiolaeth bod y broses gyfiawnhau wedi digwydd

¹³ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

cyfrifoldeb y gweithredwr oedd hyn, a bod y staff cynllunio a'r staff oncoleg glinigol yn cael eu hyfforddi i gyflawni'r swyddogaeth hon. Fodd bynnag, ar ôl bwrw golwg dros y dystiolaeth a ddarparwyd a chynnal trafodaethau â'r staff, tynnwyd sylw at y ffaith bod diffyg eglurhad yn y ddogfennaeth berthnasol ynglŷn â'r staff sy'n gyfrifol am ddiffinio organau sydd mewn perygl.

Oherwydd y dosau uchel o ymbelydredd a roddir yn ystod radiotherapi, nodwyd na chaniateir i ofalwyr na chysurwyr¹⁴ fod yn bresennol yn ystod triniaethau am resymau diogelwch. Roedd hyn i'w weld yn y Llawlyfr Cysylltiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y ddogfennaeth berthnasol ei diweddarau er mwyn nodi'n glir pa aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am ddiffinio organau sydd mewn perygl fel rhan o'r broses gynllunio cyn triniaeth.

Lefelau cyfeirio diagnostig

O dan Reoliadau 2017, mae'n ofynnol pennu lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau radio-diagnostig. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i gysylltiadau radiotherapi.

Fodd bynnag, nodwyd bod lefelau cyfeirio dosau lleol wedi cael eu rhoi ar waith mewn protocolau cynllunio tomograffeg gyfrifiadurol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol¹⁵ Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer sganiau cynllunio tomograffeg gyfrifiadurol yn cynnwys manylion y cysylltiad dos disgwylidig ar gyfer pob man triniaeth. Cawsom wybod bod y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn yr ardal rheoli tomograffeg gyfrifiadurol, ei bod ar gael yn electronig a'i bod yn cael ei harchwilio. Roedd hyn yn dangos ymrwymiad yr adran i optimeiddio cysylltiadau a mabwysiadu arferion gorau.

¹⁴ O dan Reoliadau 2017, mae gofalwyr a chysurwyr yn unigolion sy'n cael eu hamlygu i ymbelydredd ìoneiddio yn ymwybodol ac yn fwriadol wrth gefnogi a chysuro'r rhai sy'n cael eu hamlygu iddo.

¹⁵ [Lefelau Cyfeirio Diagnostig Cenedlaethol o 19 Awst 2019 – GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Pediatreg

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr nad yw'r gwasanaeth yn rhoi triniaeth i gleifion pediatrig (unigolion o dan 16 oed). Roedd hyn i'w weld yn y Llawlyfr Cysylltiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi.

Gwerthuso clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal gwerthusiad clinigol o gysylltiadau meddygol yn yr adran, gan gynnwys cysylltiad ar y camau cynllunio, gwirio a thrin. Roedd y weithdrefn yn esbonio ei bod yn rhaid i gysylltiadau a gwblheir ar bob cam o lwybr y claf gael eu gwerthuso gan ddeiliaid dyletswyddau hyfforddedig, ac yn disgrifio sut y caiff tystiolaeth o hyn ei chofnodi. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod yr holl gysylltiadau yn cael eu gwerthuso, a bod y canfyddiadau dilynol yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr restr o'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Ar ôl bwrw golwg dros y ddogfen hon, nodwyd ei bod yn cynnwys cyfeiriadau at Reoliadau 2000 yn hytrach na Rheoliadau 2017. Hefyd, gwnaethom nodi y gellid ymestyn y rhestr ymhellach yn unol â'r canllawiau cenedlaethol¹⁶, i gynnwys cyfarpar a all ddylanwadu ar y dos a roddir, megis y system gatio anadlol, system rheoli oncoleg (Aria) a'r gyfrifiannell fewnol ar gyfer cyfrifiadau a wneir gan unigolion.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer holl gyfarpar yr adran. Dywedwyd wrthym fod y rhaglen sicrhau ansawdd wedi'i rhoi ar waith yn dilyn cyngor a chymeradwyaeth gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cael ei gynnwys fel mater o drefn yn y rhaglen barhaus ar gyfer sicrhau ansawdd y cyfarpar ac, fel rhan o'n harolygiad, gwelsom dystiolaeth o'r amserlen electronig a ddefnyddir i fonitro a chofnodi'r gwaith o sicrhau ansawdd y cyfarpar.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y rhestr o'r cyfarpar ei diweddarau i gyfeirio at

¹⁶ IR(ME)R: Implications for Clinical Practice in Radiotherapy

<https://www.rcr.ac.uk/sites/default/files/guidance-on-irmer-implications-for-clinical-practice-in-radiotherapy.pdf>

Reoliadau 2017.

Dylai'r cyflogwr ystyried ymestyn rhestr o gyfarpar yr adran i gynnwys cyfarpar a all ddylanwadu ar y dos a roddir yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwnaeth yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r asesiadau a'r trefniadau rheoli risg a oedd ar waith yn yr adran. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'r staff.

Dyweddodd bron pob un o'r aelodau o'r staff a gwblhaodd ein harolwg y byddent yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon ynglŷn ag arferion clinigol anniogel ac y byddent yn teimlo'n ddiogel yn gwneud hynny. Fodd bynnag, dywedodd tri aelod o'r staff na fyddent yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon mewn perthynas ag arferion clinigol anniogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y camau y dylid eu cymryd i godi unrhyw bryderon am arferion clinigol anniogel yn yr adran.

Atal a rheoli heintiau

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw fod trefniadau digonol ar waith ar gyfer atal heintiau a dihalogi'n effeithiol yn yr adran. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cymorth a chyngor wedi bod yn cael eu rhoi'n ddyddiol ers dechrau'r pandemig a bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth.

Cawsom wybod bod addasiadau wedi cael eu gwneud i'r adran gydymffurfio â'r canllawiau perthnasol. Er enghraifft, cafodd yr ystafelloedd aros eu had-drefnu fel bod modd cadw pellter cymdeithasol, cafodd manau diheintio dwylo eu gosod, cyflwynwyd cyfyngiad ar nifer y bobl a ganiateir ym mhob ystafell ac roedd gwaith glanhau'n digwydd yn amlach yn yr uned er mwyn gallu dihalogi rhannau perthnasol o'r adran yn amlach.

Tudalen 21 o 42

Cadarnhaodd y staff fod trefniadau ar waith i holi a oes gan y cleifion unrhyw symptomau perthnasol cyn unrhyw apwyntiadau. Hefyd, roedd tymheredd y cleifion yn cael ei fesur wrth iddynt gyrraedd ac roedd cwestiynau pellach yn cael eu gofyn ynglŷn â symptomau. Cawsom wybod bod gweithdrefnau ar waith i alluogi'r staff i ymgymryd â chysylltiadau ag ymbelydredd ar gyfer cleifion â symptomau lle bo angen.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod o'r farn bod yr adran yn lân. Hefyd, cadarnhaodd y cleifion a oedd wedi ymweld â'r adran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ers dechrau pandemig COVID-19, fod y gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â rheoliadau COVID-19 yn 'amlyg iawn'.

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'n harolwg staff yn dangos bod bron pob aelod o'r staff o'r farn bod yr adran wedi gwneud y newidiadau amgylcheddol ac ymarferol angenrheidiol mewn perthynas â chydymffurfio â rheoliadau COVID-19.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cyflenwad rheolaidd o gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddosbarthu i'r adran a bod modd cysylltu â hyb canolog os bydd unrhyw broblemau. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael, a'u bod wedi cael hyfforddiant a chanllawiau digonol ar ddefnyddio'r cyfarpar. Hefyd, cadarnhaodd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd ein harolwg fod digon o gyfarpar diogelu personol wedi bod ar gael.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn ymatebion y staff i'n harolwg lle y cadarnhaodd bron pob un o'r staff eu bod wedi cael hyfforddiant. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff nad oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Ymdrinnir â'r mater hwn ymhellach yn yr adran ar 'Y Gweithlu'.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth o'r camau y dylid eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon am ddiogelu. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod siart lif ar gael sy'n amlinellu'r camau angenrheidiol i'w cymryd mewn perthynas ag uwchgyfeirio unrhyw bryderon, gan gynnwys y rhifau cyswllt perthnasol. Cawsom wybod hefyd fod cyngor a chymorth ar gael drwy weithiwr cymdeithasol a oedd yn gweithio yn yr adran.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael yr hyfforddiant ar ddiogelu. Yn ogystal â hynny, cadarnhaodd bron pob un o'r staff a ymatebodd

i'n harolwg eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant. Fodd bynnag, nododd un aelod o'r staff nad oedd wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu. Unwaith eto, ymdrinnir â'r mater hwn ymhellach yn yr adran ar 'Y Gweithlu'.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwilio clinigol

Cyflwynwyd tystiolaeth o'r amserlen archwilio sydd ar waith yn yr adran o dan y Rheoliadau. Roedd y ddogfen hon yn rhestru'r archwiliadau y bwriedir eu cynnal a phryd, yn ogystal â'r aelod o'r staff sy'n gyfrifol am gwblhau'r archwiliad. Roedd y ddogfen hefyd yn cynnwys canfyddiadau archwiliadau a oedd wedi'u cwblhau, yn ogystal â'r camau dilynol perthnasol, yr aelodau o'r staff a oedd yn gyfrifol amdanynt a'r amserlenni.

Fel rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd, gwelsom sawl enghraifft gadarnhaol o'r archwiliadau clinigol a'r archwiliadau o dan y Rheoliadau a oedd wedi cael eu cwblhau. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod canfyddiadau archwiliadau a oedd wedi'u cwblhau yn cael eu rhannu â'r aelodau perthnasol o staff yr adran fel mater o drefn drwy'r memos misol a ddosberthir.

Cyngor arbenigol

Fel y nodwyd eisoes, roedd pedwar Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi'u penodi i roi cyngor a chymorth arbenigol i'r adran. Roedd y pedwar Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi'u rhestru ar y rhestr gymeradwy ar gyfer RPA 2000, sef y corff ardystiedig ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

Dywedwyd wrthym fod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn rhoi cymorth a chyngor ac yn goruchwyllo mewn nifer o feysydd yn yr adran. Ymhlith y meysydd cymorth roedd darparu hyfforddiant i'r staff, profi a sicrhau ansawdd cyfarpar, gwerthuso dosau cysylltiad, cynnal archwiliadau ac ymchwilio i gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol.

Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gysylltu ag Arbenigwr Ffiseg Feddygol am gyngor a chymorth lle bo angen, ar sail ad hoc.

Ymchwil feddygol

Cadarnhaodd uwch-reolwyr fod yr adran radiotherapi yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud â chysylltiadau meddygol. Cawsom wybod mai dim ond

treialon clinigol sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd a Phanel Adolygu Mewnol Ymchwil a Datblygu'r bwrdd iechyd y mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan ynddynt.

Roedd y cyflogwr wedi rhoi gweithdrefn a pholisi ar waith sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer dilyn gweithdrefnau ymchwil sy'n ymwneud â chysylltiadau meddygol yn y gwasanaeth, ac roedd yn cynnwys manylion am y dull a chyfrifoldebau'r staff.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal

Roedd strwythur rheoli sefydliadol ar waith, a oedd yn nodi llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd holl weithdrefnau a phrotocolau'r cyflogwr a welwyd yn fanwl iawn ac yn dangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017. Hefyd, dangosodd y staff ymwybyddiaeth dda o'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Roedd tystiolaeth o weithlu profiadol ac ymrwymedig, gydag ethos gwaith tîm da. Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddir iddynt.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli ar waith ar gyfer radiotherapi, a oedd yn nodi llinellau adrodd clir ar gyfer y gwasanaeth. Roedd hefyd siart sefydliadol a oedd yn nodi'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol, o staff yr adran i fyny i fwrdd gweithredol y bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i ddefnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd tîm gyda staff yr adran, am ei bod yn heriol cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ers dechrau pandemig COVID-19 oherwydd y cyfyngiadau ar nifer yr unigolion a gaiff fod mewn ystafelloedd yn yr adran. Fel y nodwyd eisoes, cawsom wybod bod memos misol yn cael eu dosbarthu i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

Cyn ein harolygiad, gofynnodd AGIC i uwch-aelodau o staff yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Nod y ffurflen hon oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Roedd y ffurflen hunanasesu wedi'i llenwi i safon uchel, gan ddangos dealltwriaeth o'r rheoliadau a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith mewn arferion clinigol. Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Pan ofynnwyd am eglurhad ychwanegol ynghylch un o'r ymatebion a roddwyd, rhoddodd uwch aelodau o'r staff y wybodaeth ychwanegol yn brydlon.

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, sicrhaodd yr uwch-staff rheoli eu bod ar gael, a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a nodwyd.

Hefyd, cafodd cynrychiolwyr o'r holl adrannau radiotherapi eraill yng Nghymru eu gwahodd gan y gwasanaeth i ymuno â rhannau perthnasol o'r arolygiad. Mae hyn yn dangos parodrwydd Canolfan Ganser Gogledd Cymru i fod yn agored a rhannu'r hyn y mae'n ei ddysgu.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Rhoi hawl

Fel y nodwyd eisoes, roedd y cyflogwr wedi rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn adnabod atgyfeirwyr, gweithredwyr ac ymarferwyr, a rhoi hawliau iddynt, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod system ddigonol ar waith er mwyn rhoi hawliau i staff ddod yn ddeiliaid dyletswyddau. Roedd y wybodaeth a welwyd yn nodi'r broses sydd ar waith a hefyd yn amlinellu'r gofynion perthnasol cyn i unigolion allu dod yn atgyfeiriwr, gweithredwr neu ymarferydd â hawl.

Cawsom wybod bod yr holl staff sydd â hawl a gyflogir gan y bwrdd iechyd yn cael llythyr yn amlinellu eu hawl a chwmpas eu hymarfer. Hefyd, roedd dogfennau ar gael yn rhestru'r aelodau o'r staff oedd â hawl i gyflawni pob un o'r rolau deiliaid dyletswyddau. Roedd y dogfennau hyn hefyd yn cynnwys cwmpas ymarfer pob unigolyn.

Yn gyffredinol, roedd yr aelodau o staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u rolau fel deiliaid dyletswydd a chwmpas eu hawl o dan y Rheoliadau.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr mai Prif Weithredwr y bwrdd iechyd oedd wedi'i ddynodi'n gyflogwr o dan y Rheoliadau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym, er bod

y cyfrifoldeb cyffredinol sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr wedi'i neilltuo i'r Prif Swyddog Gweithredol, fod y Prif Swyddog Gweithredol wedi dirprwyo'r cyfrifoldebau cysylltiedig am gydgyssylltu gweithgareddau'r bwrdd iechyd sy'n ymwneud ag ymbelydredd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd. Roedd y trefniant hwn wedi'i nodi'n glir yn y ddogfennaeth a welwyd.

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas â'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr. Ymhlith y wybodaeth roedd pa mor aml y byddai'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a hefyd pwy oedd perchenogion y dogfennau, pwy oedd yn gyfrifol am sicrhau bod yr adolygiadau'n cael eu cynnal, a phryd roedd angen eu cynnal. Roedd hefyd yn nodi ei bod yn rhaid i unrhyw ddiweddariadau gael eu hawdurdodi gan y Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi neu'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol arweiniol ac, yn dilyn unrhyw ddiweddariadau, ei bod yn rhaid gwneud trefniadau i gyfleu'r newidiadau perthnasol i'r staff.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol pan fo angen. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i hysbysu'r staff perthnasol pan fyddai gweithdrefnau neu brotocolau ysgrifenedig yn cael eu diweddarau.

Ar y cyfan, roedd holl weithdrefnau a phrotocolau'r cyflogwr a gyflwynwyd fel tystiolaeth yn fanwl iawn ac yn dangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017. Hefyd, roedd y wybodaeth yn y gweithdrefnau a welwyd yn adlewyrchu'r ymatebion a roddwyd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw drwy gydol ein harolygiad.

Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol

Roedd y cyflogwr wedi rhoi gweithdrefn ar waith a oedd yn nodi'r camau y bydd angen eu cymryd os bydd rhywbeth yn digwydd neu os amheuir bod rhywbeth wedi digwydd, a all fod wedi achosi cysylltiad damweiniol neu anfwriadol i gleifion. Roedd y weithdrefn yn disgrifio'r broses i aelodau perthnasol o'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod ymchwiliad priodol yn cael ei gynnal i'r digwyddiad a amheuir, ei fod yn cael ei ddogfennu, a bod AGIC yn cael gwybod amdano'n brydlon lle bo angen.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth o'r camau allweddol i'w cymryd yn dilyn digwyddiad yn yr adran. Hefyd, cadarnhaodd y staff fod adborth ar ddigwyddiadau'n cael ei roi i'r adran ar ffurf memos misol.

Gwelwyd tystiolaeth dda o'r ffordd roedd y gwasanaeth yn cofnodi ac yn dadansoddi gwallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a digwyddiadau. Cyflwynwyd dogfen ddadansoddi gryno a oedd yn nodi'r wybodaeth berthnasol yn glir, gan gynnwys dadansoddiad o'r ffigurau cyffredinol ar gyfer 2020, y materion allweddol y tynnwyd sylw atynt a'r camau gweithredu a bennwyd er mwyn lliniaru materion tebyg yn y dyfodol. Hefyd, rhannwyd astudiaeth risg a oedd yn canolbwyntio ar gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol fel rhan o'r ffurflen hunanasesu. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar feysydd allweddol a nodwyd yn y dadansoddiad blynyddol, ynghyd â'r mesurau lliniaru a oedd wedi'u pennu a'u rhoi ar waith. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cynlluniau yn yr arfaeth i gynnal yr ymarfer dadansoddi ac astudiaeth risg bob blwyddyn, a byddem yn annog hynny'n gryf.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Fel rhan o'n harolygiad, cynhaliwyd trafodaethau â'r uwch-reolwyr ar gyfer y gwasanaeth, yn ogystal â detholiad o'r staff sy'n gweithio yn yr adran. At hynny, darparwyd arolwg staff er mwyn rhoi'r cyfle i bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran fynegi barn.

Yn gyffredinol, dangosodd y staff eu bod yn fodlon ar lefel y cymorth a'r ymgysylltu gan eu rheolwr llinell uniongyrchol. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r uwch-reolwr a'r adborth a gafwyd gan staff yr adran fod gan y gwasanaeth weithlu profiadol ac ymroddedig sydd ag ethos gwaith tîm da.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff yn dangos bod y mwyafriif o'r farn bod lefelau staffio digonol yn yr adran i'w galluogi i gyflawni eu rolau. Hefyd, cadarnhaodd pob un o'r staff eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal yr oedd modd iddynt ei roi i'r cleifion. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon mewn perthynas â'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth oherwydd y lefelau staffio. Cawsom wybod bod y lefelau staffio wedi effeithio ar allu'r staff i gyflawni rhai o'u cyfrifoldebau anghlinigol. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr, er eu bod o'r farn bod y lefelau staffio yn ddiogel, eu bod yn bwriadu cynnal adolygiad er mwyn penderfynu pa welliannau sydd eu hangen i sicrhau bod lefelau staffio digonol ym mhob rhan o'r adran yn gyson, er mwyn i'r staff allu bodloni holl ofynion eu rolau.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod proses ar waith i sicrhau y caiff pob aelod o'r staff adolygiad datblygu arfarnu personol (PADR) bob blwyddyn a bod pob un ohonynt wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Cawsom wybod bod cyfarfodydd rheolwyr yn cael eu cynnal bob pythefnos i drafod materion gan gynnwys PADR

a chydymffurfiaeth o ran hyfforddiant. Cadarnhaodd bron pob un o'r staff a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi cael eu PADR blynyddol. Fodd bynnag, dywedodd tri aelod o'r staff nad oeddent wedi cael trafodaeth PADR gyda'u rheolwr llinell yn ystod y 12 mis diwethaf. Hefyd, fel y nodwyd eisoes, dangosodd yr ymatebion manwl a gafwyd i'n harolwg nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol gofynnol.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i alluogi'r staff i gael cymorth llesiant ychwanegol lle bo angen. Fodd bynnag, dangosodd yr adborth a gafwyd nad oedd pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn ymwybodol o'r cymorth ychwanegol a oedd ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob aelod o'r staff drafodaeth PADR reolaidd fel y gellir nodi a monitro anghenion o ran hyfforddi, dysgu a datblygu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob un o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol sy'n ofynnol fel rhan o'u rolau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob un o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd (2018).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig â chysylltiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Caiff gwasanaethau hyd at saith wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch-swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Cyn yr arolygiad, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau ffurflen hunanasesu a darparu dogfennaeth ategol yn dystiolaeth. Mae'r arolwg o bell dros gyfnod o ddeuddydd yn cynnwys trafodaethau â'r uwch-reolwyr a'r staff gweithredol sy'n gweithio yn yr adran, mewn perthynas â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Er mwyn ein galluogi i gasglu barn ychwanegol, caiff arolygon cleifion a staff perthnasol eu cynnal yn ystod yr wythnosau cyn ein harolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ìoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty:Canolfan Ganser Gogledd Cymru, Ysbyty Glan Clwyd

Ward/adran:Yr Adran Radiotherapi

Dyddiad arolygu: 16 a 17 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Tudalen 35 o 42

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty:Canolfan Ganser Gogledd Cymru, Ysbyty Glan Clwyd

Ward/adran:Yr Adran Radiotherapi

Dyddiad arolygu: 16 a 17 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod fel mater o drefn beth yw'r amseroedd aros disgwyliedig yn yr adran.	5.1 Mynediad amserol	Pan fydd claf yn cyrraedd gyntaf i gael triniaeth, bydd yn cael gwybod y bydd disgwyl i'r apwyntiadau redeg yn brydlon. Fodd bynnag, os bydd unrhyw oedi, rhoddir gwybod am hyn ar hysbysfwrdd sy'n cael ei arddangos ym mhob ardal aros i gleifion. Os bydd oedi sylweddol neu os bydd peiriant wedi torri, bydd y radiograffwyr yn rhoi gwybod i'r cleifion yn unigol. Bydd arolwg yn cael ei gynnal er mwyn casglu	Patricia Evans Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Rhoddir gwybod i'r cleifion am amseroedd aros dyddiol, a bydd hyn yn dechrau ar unwaith ac yn digwydd yn barhaus.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		barn y cleifion ar amseroedd aros a sut yr hoffent gael gwybod am unrhyw oedi.		Arolwg i gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2021.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i roi diweddariadau rheolaidd i'r staff am yr adborth a geir gan gleifion ar eu profiadau o'r gwasanaeth.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Bydd y rheolwr gwasanaethau radiotherapi yn parhau i anfon adborth gan gleifion a ddaw i law yn electronig at bob aelod o'r staff. Bydd adborth ysgrifenedig a geir yn uniongyrchol gan gleifion a thrwy'r Tîm Cyngor i Gleifion a Gofalwyr yn cael ei arddangos ar hysbysfwrdd y staff i bob aelod o'r staff ei ddarllen.	Patricia Evans Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Ar unwaith ac yn barhaus.
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff yr adran ar holi am feichiogrwydd (8.3) yn y Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio ei diweddaru er mwyn adlewyrchu terminoleg o Reoliadau 2017.	Rheoliad 6 Atodlen 1 (c)	Bydd angen adolygu Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio RP01 ym mis Medi 2021. Mae'r diwygiad drafft eisoes wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu terminoleg Rheoliadau 2017.	Peter Hiles, Julian MacDonald:	Cwblhawyd y diwygiad drafft ar 06.05.2021. Cymeradwya eth gan y

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae'r polisi yn aros am gymeradwyaeth yng nghyfarfod cyffredinol y Pwyllgor Diogelu Rhag Ymbelydredd, ac wedyn caiff ei gadarnhau'n llawn erbyn diwedd mis Medi 2021	Cynghorwyr Diogelu Rhag Ymbelydredd	Pwyllgor Diogelu Rhag Ymbelydredd ar 18.06.2021 Cadarnhad gan y bwrdd erbyn diwedd mis Medi 2021
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y ddogfennaeth berthnasol ei diweddarau er mwyn nodi'n glir pa aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am ddiffinio organau sydd mewn perygl fel rhan o'r broses gynllunio cyn triniaeth.	Rheoliad 12(2)	Gellir dirprwyo'r dasg o amlinellu organau mewn perygl i weithredwyr sydd â chymhwysedd addas. Y clinigydd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol. Caiff y ddogfennaeth berthnasol ei hadolygu a'i diweddarau pan gyflwynir y system amlinellu awtomataidd, yn ystod y tri mis nesaf. Yn y cyfamser, bydd pawb sy'n ymwneud â gwaith amlinellu ac adolygu mewn perthynas ag organau	Jaap Vaarkamp Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Erbyn mis Medi 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mewn perygl yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau yn y broses hon.		
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y rhestr o'r cyfarpar ei diweddarau i gyfeirio at Reoliadau 2017.	Rheoliad 15(2)	Mae'r rhestr o'r cyfarpar bellach wedi cael ei diweddarau i gyfeirio at Reoliadau 2017	Jaap Vaarkamp Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Cwblhawyd 27.04.2021
Dylai'r cyflogwr ystyried ymestyn rhestr o gyfarpar yr adran i gynnwys cyfarpar a all ddylanwadu ar y dos a roddir yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.	Rheoliad 15(2)	Mae'r rhestr o'r cyfarpar wedi cael ei hymestyn yn unol â'r canllawiau cenedlaethol	Jaap Vaarkamp, Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Cwblhawyd 27.04.2021
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y camau y dylid eu cymryd i godi unrhyw bryderon am arferion clinigol anniogel yn yr adran.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth 7.1 Y Gweithlu	Caiff y staff eu hatgoffa o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am bryder mewn perthynas ag arferion clinigol anniogel yn yr adran. Caiff y staff eu cyfeirio at Bolisi WP4a yr Ymddiriedolaeth: <i>Procedure for Staff to Raise Concerns.</i> Gall y staff hefyd siarad ag aelod o dîm rheoli'r adran, eu cynrychiolydd undeb	Patricia Evans Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Jaap Vaarkamp Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Yng nghyfarfod staff nesaf yr adran ar 12.05.2021 a thrwyl e-bost at bob aelod o'r staff ar

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>neu gorff proffesiynol, a gallant hefyd gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol i gael cyngor. Gall y staff hefyd ddefnyddio system adrodd <i>Safe Haven</i> ar dudalen yr Ymddiriedolaeth ar y fewnwyd, sydd ar fin lansio menter <i>Speak Out Safely</i> sydd â'r nod o helpu'r staff i godi pryderon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p>		<p>ffurf cofnodion y cyfarfod staff. Caiff aelodau newydd o'r staff eu hysbysu fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu.</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob aelod o'r staff drafodaeth PADR reolaidd fel y gellir nodi a monitro anghenion o ran hyfforddi, dysgu a datblygu.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Caiff cydymffurfiaeth o ran PADR ei monitro bob pythefnos drwy'r adroddiad a gyflwynir yn y cyfarfodydd rheolwyr pythefnosol. Mae hon yn broses barhaus a bydd yr aelodau hynny o'r staff a ddylai fod wedi cael PADR ers tro yn cael eu blaenoriaethu</p>	<p>Patricia Evans Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Jaap Vaarkamp, Pennaeth Ffiseg Radiotherapi</p>	<p>I gael sylw ar unwaith</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob un o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol sy'n ofynnol fel rhan o'u rolau.	7.1 Y Gweithlu	Bydd cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro'n barhaus ond bydd amser i ffwrdd o ddyletswyddau clinigol yn cael ei drefnu ar gyfer y rheolwyr a'r staff hynny yn yr adran a ddylai fod wedi cael hyfforddiant ers tro, er mwyn iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Trefnir bod staff cyflenwi ar gael er mwyn cyflawni hyn.	Patricia Evans Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Jaap Vaarkamp, Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol cyfredol erbyn mis Medi 2021
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob un o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd 7.1 Y Gweithlu	Caiff y staff eu cyfeirio at weithdrefn WP33 yr Ymddiriedolaeth ar Iechyd Meddwl, Llesiant a Strategaethau Rheoli Straen ar gyfer Staff. Hefyd, cânt eu hatgoffa i ddarllen y wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn yr ystafell staff, a'u cynghori i sicrhau eu bod yn darllen negeseuon e-bost yr Ymddiriedolaeth at bob defnyddiwr sy'n sôn am gymorth ar gyfer Iechyd a Llesiant	Patricia Evans, Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Jaap Vaarkamp Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Y cyfarfod staff nesaf ar 12 Mai 2021 ac yn electronig drwy'r cofnodion yn dilyn y cyfarfod

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Patricia Evans

Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi

Dyddiad: 30/04/2021